

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Cyncoed, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cyncoed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 16 Mai 2022.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau o arolygwr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwer: mae canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Cyncoed yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt yn 'dda iawn'.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'w darpariaeth gwasanaeth yn seiliedig ar ganllawiau'r llywodraeth. Roedd y newidiadau hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu trin mor ddiogel â phosibl, gyda gweithdrefnau ar waith i leihau lledaeniad COVID-19.

Gwelsom fod y staff yn darparu gwasanaethau ar gyfer eu cleifion mewn modd amserol a phroffesiynol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau dadansoddiad o holiaduron ac adborth blwch awgrymiadau y practis i bennu pa feysydd sy'n gweithio'n dda a pha feysydd y gallai fod angen eu gwella

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd croesawgar a modern
- Adborth cadarnhaol gan y cleifion.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Cyncoed yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn fodern, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac wedi'i gyfarparu'n dda i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'u cofrestru i'w darparu. Roedd pob man yn lân ac yn rhydd o unrhyw beryglon gweladwy.

Gwelsom fod y trefniadau ar waith ar gyfer diogelwch tân a dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn briodol i amddiffyn y staff a'r ymwelwyr.

Gwnaethom argymhellion ar gyfer gwella nodiadau cleifion a chynnal rhai archwiliadau ychwanegol a fydd yn helpu i wella ymhellach y gwasanaethau y mae'r practis yn eu darparu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu a gwella cofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod manylion y cleifion, gan gynnwys cyfeiriadau, yn cael eu cofnodi. Mae angen cynnwys adroddiadau ar radiograffau yn y nodiadau. Mae angen cofnodi graddau cyson i'r archwiliadau periodontol sylfaenol a radiograffau yng nghofnodion cleifion
- Dylid cynnal archwiliadau ychwanegol, yn benodol archwiliad rhoi'r gorau i ysmegu a rhagnodi gwrthfotigau i asesu cydymffurfedd â'r canllawiau cyfredol
- Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau adroddiad Rheoliad 23 a sicrhau bod yr adroddiad yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliad. Rhaid anfon copi i AGIC.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau diogelwch tân priodol ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i gynnal adeilad diogel ar gyfer y staff a'r ymwelwyr
- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir yn y practis mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom grŵp staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w gleifion.

Gwelsom fod nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a oedd yn berthnasol i'r gwasanaethau yr oedd y practis yn eu darparu. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u storio'n ganolog er mwyn cael mynediad hawdd iddynt. Roedd y staff yn llofnodi taflenni i ddangos eu bod wedi darllen y polisiâu ac yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Roedd gan y staff fynediad at gyfleoedd hyfforddi priodol er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol. Gwelsom fod yr hyfforddiant yn gyfredol a thystysgrifau'n cael eu cadw i ddangos hyn.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu cofnodi a'u cadw ar ffeil.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai pob deintydd gwblhau'r hyfforddiant ymyriad byr ar roi'r gorau i ysmegu.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cyflwyno gwasanaeth llesiant ar-lein i'r staff.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o ddeg holiadur wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am flwyddyn neu ddwy

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

“Bydda i bob amser yn defnyddio'r practis hwn”

“Amyneddgar iawn ac yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol”

“Bob amser yn gymwynasgar ac yn ofalgar tuag ataf”

Ni roddodd unrhyw un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur sylwadau ar sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a'r cleifion ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r practis. Roedd sgriniau wedi'u gosod ar ddesg y dderbynfa i helpu i ddiogelu'r staff a'r ymwelwyr.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19, gallai'r cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw ymweld â'r practis. Gofynnwyd i bob ymwelydd lanweithio eu dwylo wrth gyrraedd a gwisgo masg wyneb. Roedd pethau diangen wedi cael eu symud o'r meddygfeydd cymaint â phosibl. Teimlai wyth o'r deg claf a gwblhaodd holiaduron ei bod yn amlwg iawn bod gan y practis weithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 ar waith yn ystod eu cyfnod yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cwblhau cwestiynau sgrinio am COVID-19 cyn iddynt gyrraedd y practis, a chaiff hyn ei gofnodi ar gofnod y claf.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur gan AGIC wedi dweud wrthym fod y tîm

deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw'r geg a'r dannedd yn iach. Roedd enw'r practis i'w weld yn glir o'r tu allan. Roedd oriau agor, rhif cyswllt ac enwau'r deintyddion hefyd wedi'u harddangos. Roedd enwau a chymwysterau'r staff hefyd wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Gwelsom fod arwydd dim ysmegu wedi'i arddangos, a oedd yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn yr iaith honno.

Dyweddodd y staff wrthym fod ganddynt fynediad at wasanaethau lle y gellid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cleifion mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print bras, sain a braille. Mae ganddynt hefyd fynediad at wasanaethau cyfieithu i gynorthwyo unrhyw un nad Saesneg yw ei iaith gyntaf i dderbyn gwasanaethau a/neu wybodaeth yn ei ddewis iaith. Gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn eu polisi gwybodaeth hygyrch. Efallai y bydd y practis am ystyried hysbysebu'r gwasanaethau hyn fel bod eu cleifion yn gwybod bod yr wybodaeth ar gael mewn fformatau eraill.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal mewn modd urddasol a pharchus, a chlywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cynnal sgysiau preifat â chleifion yn y deintyddfeydd i ffwrdd o'r dderbynfa/man aros.

Gwelsom fod naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y man aros, felly yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwybodaeth i gleifion

Dyweddodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth. Dywedodd pob claf fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt.

Gwelsom hysbysfwrdd a oedd yn arddangos gweithdrefn gwyno'r practis, naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac enwau'r staff. Roedd amryw o daflenni

iechyd a chosmetig ar gael i'r cleifion eu cymryd, a oedd hefyd yn cynnwys Taflen Gwybodaeth i Gleifion y practis.

Gwelwyd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG. Gwelsom fod rhestr brisiau'r GIG wedi'i lleoli wrth ymyl y dderbynfa a bod y rhestr brisiau preifat wedi'i lleoli yn yr ystafell aros gaeedig. Os nad oedd claf yn defnyddio'r ardal hon, yna mae'n annhebygol o weld yr wybodaeth hon. Felly, gwnaethom ofyn i'r practis ystyried gosod y ddwy restr brisiau mewn man amlwg lle bydd y cleifion yn fwyaf tebygol o weld y ddwy restr.

Gwelwyd posteri yn atgoffa'r cleifion am symptomau COVID-19 ac am wisgo masgiau wyneb.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Gwelsom y practis yn ymdrechu i ddarparu gofal deintyddol mewn modd amserol, a arsylwyd hyn yn ystod ein harolygiad. Mae angen gwneud pob apwyntiad dros y ffôn ar hyn o bryd.

Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amseroedd eu hapwyntiadau. Teimlai wyth o'r deg claf a gwblhaodd holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Disgrifiodd y ddau holiadur arall y broses fel un 'weddol hawdd'.

Dywedodd pob claf heblaw am un a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt nifer o apwyntiadau ar gael bob dydd i ddelio ag argyfyngau.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom rai cyfyngiadau oherwydd COVID-19 yn dal i fod ar waith, a dim ond y cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw oedd yn dod i mewn i'r practis. Rhaid gwisgo masgiau wyneb lle bo'n berthnasol a gofynnwyd i bob ymwelydd lanweithio eu dwylo wrth gyrraedd.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom adolygu cofnodion deg claf a chanfod bod tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Roedd yr holl gofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn cynnwys hanes meddygol wedi'i ddiweddarau yn y nodiadau.

Hawliau pobl

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y polisi'n cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a thriniaeth i bob claf waeth beth fo'i nodwedd warchoddedig. Gwelsom boster yn cael ei arddangos yn y man aros yn nodi "rydym yn parchu eich preifatrwydd a'ch urddas" a darparodd y staff enghreifftiau o sut maent yn trin eu cleifion ag urddas a pharch, gan gynnwys defnyddio enw a ffefrir gan y claf.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym trwy ein holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir ac nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael mynediad at y practis hwn, neu wrth ei ddefnyddio.

Mae'r practis deintyddol yn gweithredu ei wasanaethau ar y llawr daear. Roedd mynediad i'r adeilad a'r ystafelloedd triniaeth yn addas i unrhyw un oedd yn defnyddio cymorth symudedd. Roedd y toiled yn darparu rhai canllawiau ar gyfer unrhyw un oedd angen cymorth, ond nid oedd unrhyw gyfleusterau newid cewynnau ar gael. Roedd arwyddion clir ar gyfer y toiled ac roedd yn lân. Gwelsom fod cyfleusterau gwaredu offer glanweithiol chyfleusterau ymolchi dwylo a sychu dwylo ar gael.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod blwch adborth/awgrymiadau ar gael yn y man aros. Mae gan y practis hefyd ei holiadur cleifion ei hunan ar gael ar ei wefan. Cedwir holiaduron wedi'u cwblhau ar ffeil a gwnaethom nodi y cafwyd ymatebion cadarnhaol yn 2021. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw adborth yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm, fodd bynnag, gwnaethom argymhell, yn ogystal â thrafod yr holiaduron, y dylid cyflawni rhywfaint o ddadansoddi ffurfiol. Bydd hyn yn helpu'r practis i ddangos tystiolaeth o feysydd sy'n gweithio'n dda a meysydd lle gallai fod angen gwneud gwelliannau.

Roedd y weithdrefn gwyno ar gyfer y cleifion preifat a chleifion y GIG wedi'i harddangos ar yr hysbysfwrdd yn y man aros. Gwelsom fod gan y practis systemau ar waith i sicrhau bod cwynion yn cael eu trin a'u cofnodi'n briodol.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis.

Roedd yr adeilad wedi ei adnewyddu i safon uchel a modern. Gwelsom ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn allanol ac yn fewnol. Roedd pob man yn y practis i'w weld yn lân, yn daclus, ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd arwyddion clir i bob ystafell. Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddihalogi mewn cyflwr rhagorol. Roedd gan bob ystafell y cyfarpar angenrheidiol i gyflawni'r triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn ogystal ag asesiad risg iechyd a diogelwch i sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas i'r diben.

Roedd trefniadau priodol ar waith i amddiffyn y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis pe bai tân. Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant tân cyfredol. Roedd asesiad risg tân wedi'i gynnal ac roedd diffoddwyr tân ledled y practis wedi cael eu gwasanaethu ym mis Hydref 2021. Roedd arwyddion allanfeydd tân wedi'u harddangos yn glir a defnyddiwyd llyfr cofnodion tân i gofnodi ymarferion tân.

Gwelsom boster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos ac roedd dau aelod o staff wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Roedd meddygfa nad oedd yn cael ei defnyddio yn cael ei defnyddio fel ystafell staff a man newid. Roedd toiled ar gael i'r staff a'r cyhoedd.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes ar waith.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod gan y practis bolisi heintiau a rheoli ar waith, a oedd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau safonau uchel o ran rheoli heintiau. Mae hyn oherwydd bod gan y practis amserlenni glanhau ar waith a oedd

yn cael eu dilyn. Roedd aelod penodol o staff a oedd yn arwain rheoli heintiau. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio a bod yr amgylchedd mewn cyflwr da er mwyn gallu glanhau pob man yn effeithiol. Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ymdrin ag unrhyw anafiadau o offer miniog.

Gwelsom fod yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn addas i'r diben. Gwelsom fod y llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio yn cael eu cwblhau. Roedd archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael ei gwblhau'n flynyddol.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi dilyn hyfforddiant rheoli heintiau.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Roedd contract gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel ar waith. Gwelsom fod y bin gwastraff clinigol yn cael ei gadw wrth ochr yr adeilad lle mae mynediad i'r cyhoedd ac argymhellwyd ei fod yn cael ei symud y tu ôl i'r gatiâu dan glo. Gweithredwyd hyn ar y diwrnod ac felly roedd y gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac ar wahân i wastraff nad yw'n beryglus.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys. Roedd polisi meddygol brys ar waith a oedd yn cynnwys rhoi, trin a gwaredu meddyginiaethau i'r cleifion. Roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd y staff yn gyfredol.

Gwelsom fod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio mewn lleoliad y gallai'r staff eu cyrchu'n hawdd.

Roedd systemau ar waith i ddangos bod gwiriadau ar y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gwelsom fod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys i gyd yn gyfredol.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd yr holl eitemau yn gyfredol ac yn cael eu gwirio gan y staff.

Gwelsom badiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau y byddent yn eu cymryd pe bai argyfwng neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad anffafriol sy'n ymwneud â chyffuriau.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Gwelsom fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu oedolion a phlant, lefel 2. Roedd y prif ddeintydd wedi cwblhau lefel 3.

Y prif ddeintydd oedd arweinydd diogelu'r practis a dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd iddi.

Gwelsom fod ffeil ddiogelu ar waith. Roedd y ffeil yn cynnwys polisi a oedd yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol. Roedd rheolwr y practis yn ymwybodol o wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn cyfeirio ati i sicrhau bod ei wybodaeth yn gyfredol.

Gwelsom fod gan y staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ffeil a oedd yn cael ei gynnal cyn eu cyflogaeth.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer.

Gwelsom fod yr offer deintyddol mewn cyflwr da ac yn ddigonol o ran nifer. Roedd trefniadau digonol ar waith i ymdrin ag unrhyw fethiant dyfais neu system.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel a chanfod bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ar gael ac yn gyfredol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod gan y deintyddion hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio cyfredol. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff yn cael eu defnyddio fel ffordd o asesu cymhwysedd yn dilyn hyfforddiant.

Roedd tystiolaeth bod gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd yn cael eu cynnal mewn perthynas â gweithdrefnau ysgrifenedig, protocolau ac offer, gan gynnwys asesiad risg ymbelydredd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis a thrin y cleifion. Mae hyn oherwydd bod manylion wedi'u dogfennu yn ei ddatganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arweiniad proffesiynol a lle bo'n berthnasol yn defnyddio hwn i ddiweddarau eu polisiau eu hunain.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y practis bolisi sicrhau ansawdd ar waith a dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion.

Mae ffeil archwilio ar waith a gwelsom archwiliadau wedi'u cwblhau a oedd yn cynnwys archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, canser y geg ac archwiliad 'heb fynychu'r apwyntiad'. Caiff unrhyw welliannau eu cofnodi a'u cadw yn y ffeil.

Gwelsom nad oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cwblhau ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu a rhagnodi gwrthfotigau ac rydym yn argymhell bod hyn yn cael eu hychwanegu at y rhaglen archwilio.

Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o adolygiad anffurfiol o'r staff clinigol gan gymheiriaid yn cael ei gynnal, ond nid yw hyn yn cael ei gofnodi.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Mae Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis a pharatoi adroddiad ysgrifenedig ar weithrediad y practis. Felly, rydym yn argymhell bod yr unigolyn cyfrifol yn adolygu gofynion Rheoliad 23 ac yn cynnal yr ymweliad cyn gynted â phosibl. Dylid cyflwyno'r adroddiad a gynhyrchir i AGIC.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data a phreifatrwydd ar waith. Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel yn unol â gofynion GDPR.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu deg set o gofnodion cleifion a daethom i'r casgliad bod y rhain yn cael eu cadw i safon dda ar y cyfan. Roedd y nodiadau yn glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da ar y cyfan.

O'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod ganddynt ddigon o wybodaeth am hanes deintyddol y cleifion, y rhesymau dros fynychu, gwybodaeth am driniaeth, cydsynio a gwybodaeth adalw.

Fodd bynnag, o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwnaethom ganfod rhai meysydd lle mae angen gwella. Gwelsom un cofnod nad oedd ganddo gyfeiriad y claf. Mae angen graddio radiograffau a chofnodi adroddiad yn y cofnodion. Mae angen dogfennu archwiliadau peridontol sylfaenol yn gyson yng nghofnodion cleifion. Argymhellwyd felly bod cofnodion yn cael eu hadolygu a bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn benodol i'r meysydd a nodwyd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd (perchennog y practis) sy'n bennaf gyfrifol am reoli'r practis. Mae'n cael ei chefnogi gan ddau ddeintydd, dau hylenydd, rheolwr practis, derbynnydd, gweinyddwr a thair nyrs ddeintyddol, y mae un ohonynt yn hyfforddai. Gwelsom fod gofal deintyddol preifat yn cael ei ddarparu yn unol â'i amodau cofrestru.

Gwelsom y tîm staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu perthynas a'u rhyngweithio â'i gilydd a'u cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion, yr oedd y ddau yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roeddent yn benodol i'r practis. Gwelsom fod taflenni staff wedi'u cynnwys yn y ffeil polisi i ddangos y polisiau yr oedd y staff wedi'u darllen.

Y prif ddeintydd oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan

gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno pe bai unrhyw anafiadau difrifol.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal. Caiff cofnodion eu cofnodi a'u cadw mewn ffolder fel y gall unrhyw aelod o staff nad yw'n gallu bod yn bresennol eu darllen. Dywedodd y staff wrthym fod cofnodion yn cael eu rhannu ag unrhyw un nad yw'n gallu mynychu cyfarfod tîm.

Y gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio staff newydd ac roedd polisïau ar waith i gefnogi cyflogi a sefydlu'r staff. Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio yn y practis. Dywedwyd wrthym am y broses ar gyfer sicrhau cymhwysedd, profiad, hyfforddiant a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd staff asiantaeth.

Cedwir ffeiliau staff, a gwelsom eu bod yn cynnwys tystiolaeth o'u cofrestrïad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, contract cyflogaeth, imiwnedd Hepatitis B, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yswiriant indemniad proffesiynol.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a dywedasant wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch darparu gofal i'r cleifion, naill ai'n uniongyrchol ag aelod o staff neu â chorff priodol arall os oedd angen.

Gwelsom fod y staff yn derbyn gwerthusiad a gwelwyd copïau o'r rhain yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom dystiolaeth fod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff a bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom argymhell bod pob deintydd yn cwblhau'r hyfforddiant ymyriad byr ar roi'r gorau i ysmegu. Mae hyn oherwydd bod pedwar o'r deg o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn ysmygwyr, ac nid oedd cofnodion unrhyw un ohonynt yn nodi eu bod wedi cael unrhyw gyngor ar roi'r gorau i ysmegu.

Menter a oedd yn cael ei chyflwyno i'r staff cymorth oedd 'Mind Ninja'¹, sy'n darparu hyfforddiant llesiant a rhaglenni penodol i weithwyr deintyddol proffesiynol.

¹ Gweler: [Mind Ninja \(mind-ninja.co.uk\)](http://mind-ninja.co.uk)

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|--|--|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cyncoed

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|------------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd ynghylch sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cyncoed

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol gwasanaeth | Amserlen |
|--|---|--|-------------------------------|
| Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal dadansoddiad o holiaduron ac adborth blwch awgrymiadau'r practis i bennu pa feysydd sy'n gweithio'n dda a pha feysydd y gallai fod angen eu gwella | Rheoliad 16 (1)(a) a (2)(b)(ii) (d)(ii) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safonau lechyd a Gofal - 6.3 Gwrandio a dysgu o adborth | Dadansoddiad wedi'i gynnal ym mis Mai 2022, mae copi wedi'i anfon at AGIC. | Zena Aseeley Cwblhawyd |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau adroddiad Rheoliad 23 a sicrhau bod yr adroddiad yn | Rheoliad 23 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth | Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2022, anfonwyd copi at AGIC ynghyd â chopi o'r cynllun | Zena Aseeley Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|--|---|---------------------|------------------------|
| <p>cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliad. Rhaid anfon copi i AGIC</p> | <p>Breifat (Cymru) 2017); (2) (a) (b) ac (c); (3); (4) (a) (b) ac (c); (5) (a) a (b) (i) (ii); (6)</p> | <p>sicrhau ansawdd a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2022.</p> | | |
| <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu holl gofnodion y cleifion a sicrhau bod cyfeiriadau cleifion yn cael eu cofnodi; cofnodir adroddiad ar radiograffau a chofnodir graddau cyson i'r radiograffau ac archwiliadau periodontol sylfaenol a gofnodir yn nodiadau cleifion</p> | <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii) Safonau lechyd a Gofal - 3.5 Cadw cofnodion</p> | <p>Gwirio cofnodion am gyfeiriadau. Zena Aseeley a chymdeithion nawr i gofnodi graddau radiograffau ac archwiliadau periodontol sylfaenol yn yr un adrannau o nodiadau cleifion er cysondeb.</p> | <p>Zena Aseeley</p> | <p>Ar unwaith</p> |
| <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei raglen o archwiliadau a chynnwys archwiliad rhoi'r gorau i ysmegu ac archwiliad gwrthfotigau</p> | <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1)(a)(b) Safonau lechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd,</p> | <p>Cyflwynwyd archwiliadau rhoi'r gorau i ysmegu a gwrthfotigau a'u dosbarthu i ddeintyddion i'w cwblhau.</p> | <p>Zena Aseeley</p> | <p>Gorffennaf 2022</p> |

| | | | | |
|---|--|---|--------------|-----------|
| | ymchwil ac arloesi | | | |
| Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hyfforddiant ymyriad byr ar roi'r gorau i ysmegu yn cael ei gwblhau gan bob deintydd | Rheoliad 17 (1)(a) a (3)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Safon 7.1: Y gweithlu o'r Safonau lechyd a Gofal | Hyfforddiant ar roi'r gorau i ysmegu wedi'i gwblhau gan bob deintydd ac anfonwyd copiau o'r tystysgrifau i AGIC | Zena Aseeley | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Zena Aseeley

Swydd: Perchennog y Practis

Dyddiad: 14/06/2022